Canllawiau i gynghorau par: gwerthu ysgolion cynradd
21 Awst 2013

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 9 Awst 2013, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'r cais am wybodaeth a nodwyd yn eich llythyr dyddiedig 4 Awst 2003.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru) wedi rhoi unrhyw ganllawiau i Gynghorau Sir mewn perthynas â gwerthu hen Ysgolion Cynradd Sirol. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth ynghylch p'un a allai Cynghorau Sir werthu ysgolion sydd wedi cau am lai na phris y farchnad i grŵp cymunedol neu gymdeithas gymunedol ddielw pe bai hynny o fudd i'r gymuned.

Mae eich llythyr yn nodi y byddech yn croesawu gwybodaeth arall am y mater hwn. Er nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â thestun eich cais, amgaeaf gopi o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003. Mae'n cynnwys gwybodaeth am allu awdurdodau i waredu tir yng Nghymru am bris llai na'r gorau, a all fod o ddiddordeb mwy cyffredinol i chi.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Ian Phillips